

Gan ddefnyddio Fframwaith Entrecomp, gwerthuswch yn feirniadol eich creadigrwydd a'ch menter eich hun ac ystyried sut y gallech chi ddatblygu sgiliau creadigol a mentrus dysgwyr cynradd trwy'ch addysgeg eich hun.

Enw: Alice Liney

Rhif Myfyriwr: 1600324

Dosbarth: 3A

Cod y modiwl: ECAD6011/C

Cydlynnydd y modiwl: Tom Cox

Dyddiad Cyflwyno: 28/1/19

Mae nifer o ffurf wahanol i ddiffinio'r term creadigrwydd. Amlinella Robinson ac Aronica (2015) 'Creativity is the process of having original ideas that have value.' Er hyn, gall fod yn anodd diffinio ystyr y term 'original ideas', oherwydd gall pobl wahanol dyfeisio syniadau tebyg, ond gall y syniadau yma fod yn wreiddiol iddyn nhw. Dros y blynyddoedd, mae creadigrwydd o hyd wedi bod yn bwysig, ac awgryma gweithwyr sy'n cysylltu â'r celfyddydau mynegiannol megis beirdd, awduron ac yn y blaen fod yn "medium for beautifying the environment, a form of self-expression and communication, or a way of understanding the unknown" (Cropley, 2001, t. 4). Mae'n rhoi'r gallu i blant, pobl ifanc ac oedolion i fynegi eu hun mewn ffordd unigryw. Mae creadigrwydd yn hynod o bwysig o fewn ysgolion. Dyweda Donaldson (2015) fod 'creadigrwydd a menter yn elfennau canolog mewn bywyd modern sydd i'w datblygu a'u hystyngwyr drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol' ac o fudd iddyn nhw yn y dyfodol ac yn y byd gwaith, yn ogystal â'r byd addysg. Er hyn, awgryma Robinson (2007) fod angen llai o stigma yn ymwneud â chreadigrwydd gan fod gan ysgolion y pŵer i gael effaith negyddol ar greadigrwydd dysgwyr. Mae angen cynyddu'r pwyslais ar greadigrwydd o fewn ysgolion oherwydd wrth i bobl heneiddio, maent yn llai hyderus i fynegi eu sgiliau creadigol, "we don't grow in to creativity, we grow out of it" (Robinson, 2007).

Addysg menter yw'r broses o gyfarparu dysgwyr gyda chynhwysedd gwell i gynhyrchu syniadau a'r sgiliau i alluogi hyn i ddigwydd. Mae'n ymgeisio i baratoi dysgwyr at y dyfodol a'r byd gwaith. Noda'r cwmni 'Enabling Enterprise' (2017) fod 94% o athrawon wedi gweld datblygiad disgyblion trwy'r rhaglen yma. Awgryma Hytti ac O'Gorman (2004) i sicrhau fod addysg menter yn cael ei weithredu mewn ffordd effeithiol, mae angen sicrhau fod gan ymarferwyr ac addysgwyr dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o amcanion a nodau sydd gan ymyraethau a phrosiectau addysg menter. Bydd hyn yn sicrhau bod menter yn llwyddiannus o fewn y byd addysg.

Gall addysgu creadigrwydd a sgiliau menter o fewn ysgolion fod yn her i athrawon. Un o'r heriau yma yw sbarduno creadigrwydd disgyblion. Awgryma Robinson ac Aronica (2015) "Imagination is the root of creativity. It is the ability to bring to mind things that aren't present to our senses." Un her i athrawon yw eu gallu personol i feddwl yn greadigol. Awgryma Atavar (2013) fod pawb yn greadigol ond i fod yn greadigol mae angen i ni ymddiried yn syniadau ein hun a darganfod sut i ddatblygu ffordd unigryw o weld pethau. Dyweda Guilford (1950) fod mathau gwahanol o feddwl. Dau o'r ffyrdd yma yw meddwl cydgyfeiriol a meddwl dargyfeiriol. Meddwl cydgyfeiriol yw un ffordd o feddwl sy'n mynd i

roi ateb penodol, a defnyddio rhesymeg. Meddwl dargyfeiriol yw ffordd o feddwl sy'n defnyddio creadigrwydd ac yn cynhyrchu syniadau newydd. Mae yna wyth elfen wahanol i feddwl dargyfeiriol: cymhlethdod; chwilfrydedd; hyblygrwydd; llithrigrwydd; cymryd risg; ymhelaethid; dychymyg; gwreiddioldeb. Awgryma Guilford (1950) fod angen y ddau fath gwahanol yma o feddwl i weithio, caiff hyn ei alw'n meddwl ochrol. Wrth gynllunio ac addysgu gwersi, teimlaf fy mod yn meddwl yng nghydygyfeiriol yn fwy nag yn ddargyfeiriol, felly i ddatblygu fy sgiliau creadigol, gallaf ymgeisio i feddwl yn ddargyfeiriol yn ogystal ag yng nghydygyfeiriol er mwyn sicrhau lefel uwch o greadigrwydd.

Un peth all effeithio ar lefel creadigrwydd pobl, yn enwedig fel athrawon yw sefydlogrwydd swyddogaethol. Golyga'r term hyn math o floc meddyliol sy'n rhwystro pobl rhag gweld neu ddefnyddio gwrthrych mewn ffordd newydd er mwyn datrys problem, yn debyg i feddwl cydgyfeiriol. Mae sefydlogrwydd swyddogaethol wedi datblygu o broblem kannwyll Duncker (1945). Dangosodd Duncker trwy'r broblem kannwyll ei fod yn anodd i "grown ups to solve problems requiring out of the box thinking as we have acquired a mental block against using objects in an unfamiliar, novel way" (Ramm, Tjøtta a Torsvik, 2013). Atgyfnertha hyn gall fod her i athrawon i feddwl yn greadigol.

Noda von Oech (1943) fod 10 peth sy'n rhwystro pobl rhag meddwl yn greadigol: "the right answer; that's not logical; follow the rules; be practical; play is frivolous; that's not my area; don't be foolish; avoid ambiguity; to err is wrong; I'm not creative." Y ddau rwystr sy'n effeithio mwyaf ar greadigrwydd a menter athrawon yw'r angen i ddilyn y rheolau, a'r meddylfryd fod nid eu hardal nhw yw greadigrwydd. Mae angen i athrawon ddilyn y cwricwlwm, felly mae modd gweld hyn fel rhywbeth sy'n rhwystro nhw rhag addysgu'r pethau creadigol maen nhw eisiau. Mae nifer o bobl yn defnyddio'r esgus eu bod nhw ddim yn greadigol, neu nid creadigrwydd yw eu cryfder, ond noda Robinson "one of the myths of creativity is that very few people are really creative." Atgyfnertha hyn gan Downing (1997, dyfynnwyd yn Majid, Tan a Soh, 2003), sy'n awgrymu fod yn naturiol i bawb, ac er ei fod yn amrywio o berson i berson, mae pawb yn greadigol mewn rhyw ford. Creda nifer o bobl gan gynnwys athrawon fod creadigrwydd yn cyfeirio at y celfyddydau mynegiannol a'u fod yn elfen israddol o fewn y byd addysg, ond "creativity is as important as literacy and we should treat it with the same status" (Robinson, 2013).

Mae'r fframwaith EntreComp yn ymgeisio cysylltu'r byd addysg a'r byd gwaith (Bacigalupo et. al, 2016). Un peth negyddol am y fframwaith EntreComp yw bod e heb cael ei brofi eto o

fewn ysgolion a'r byd addysg. Oherwydd hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos os fydd y fframwaith yn llwyddiannus o fewn addysg. Y cam nesaf fydd i drïo "the EntreComp Framework out in practice, by implementing and evaluating it in a specific context" ac yna neud unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau os fydd angen yn seiliedig ar adborth ymarferwyr (Bacigalupo et. al, 2016). Wrth edrych ar y fframwaith EntreComp, gwelir bod gan yr adrannau wyth lefel wahanol. Mae gan yr adran creadigrwydd o'r fframwaith pum elfen wahanol: Bod yn chwilfrydig ac yn agored; datblygu syniadau; diffinio problemau; dylunio gwerth; bod y unigryw.

Ar hyn o bryd, teimlaf fy mod angen datblygu fy sgiliau yn y maes 'bod yn chwilfrydig ac yn agored' (Bacigalupo et. al, 2016). Credaf fy mod ar y ffin rhwng lefel tri a phedwar, sef y grŵp canolog. Gallaf arbrofi gyda fy sgiliau o fewn sefyllfaoedd sy'n newydd i mi, ac weithiau chwilio am ddatrysiadau newydd ar gyfer y sefyllfaoedd hyn. Yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol, teimlaf fy mod wedi bod yn agored i amrywiad o ddulliau addysgu sydd wedi bod o fudd i mi yn ystod fy mhrofiad. Er hyn, gallaf wedi ehangu fy nefnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu (gweler atodiad i) i ddiwygio fy sgiliau chwilfrydeg. Wrth ddefnyddio offer technolegol er mwyn asesu ar gyfer dysgu, fel nodir yn yr adolygiad diwedd wythnos, gallaf ddatblygu fy sgiliau cymhwysedd digidol ymhellach yn ogystal. I wella fy sgiliau fel athrawes o ran bod yn chwilfrydig ac yn agored, bydd angen i mi chwilio yn aml am ffurf o wella fy syniadau a chyfuno fy nealltwriaeth o gyd-destunau gwahanol.

Elfen arall o'r adran creadigrwydd teimlaf fod angen i mi ddatblygu yw bod yn unigryw. O ran y fframwaith EntreComp, teimlaf fy mod ar lefel pedwar sef y grŵp canolog. Mae gen i'r gallu i feirniadu os mae syniad neu gynnyrch yn un gwbl unigryw, neu dim ond yn unigryw i mi. Gallaf hefyd darganfod a disgrifio enghreifftiau o syniadau a chynnyrch unigryw. Wrth edrych ar atodiad ii, mae modd weld fy mod wedi defnyddio dulliau 'sbarduno, ysgogi ac addysgu' wedi'u cyflwyno gan yr athrawes dosbarth yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol, ond er hyn, mae yna le i mi ddatblygu ymhellach trwy arbrofi gyda syniadau fy hun i ymgeisio sicrhau fod fy addysgu yn unigryw. Er mwyn ddatblygu fy sgiliau o fod yn unigryw ymhellach, bydd angen i mi allu ehangu fy nealltwriaeth o sut all syniadau unigryw bod o fudd yn y byd addysgu, yn ogystal â gallu disgrifio lefelau gwahanol o syniadau unigryw a'r effaith mae'r rhain yn cael.

Teimlaf fod un o'r elfennau o fewn yr adran creadigrwydd sydd gen i fwy o sgiliau ynddo yw datblygu syniadau. Credaf fy mod ar lefel pump sef y grŵp datblygedig ar gyfer yr elfen yma,

gan fy mod gen i'r gallu i weithio gydag eraill i ddisgrifio ac egluro dulliau gwahanol i broblemau, a chynllunio strategaethau i ddatrys problemau. Mae modd gweld fy mod yn gallu 'rhoi cyfarwyddiadau clir' yn ogystal ag 'esbonio fy nisgwyliadau yn effeithiol' (atodiad iii). Nodir hefyd fy mod 'yn cydgynllunio'n effeithiol fel rhan o'r tîm' (atodiad iv) sy'n hanfodol wrth addysgu ac yn cadarnhau fy mod yn cyrraedd lefel pump yn yr adran yma o'r fframwaith EntreComp. I ddatblygu fy sgiliau yn y maes yma ymhellach, fydd angen i mi ddylunio syniadau gyda staff addysgu er mwyn profi os mae gwerth a chreadigrwydd i'r syniadau yma.

Gwelir yn adran 'mobilising others' y fframwaith EntreComp (Bacigalupo et. al, 2016) fod angen ysbrydoli eraill wrth addysgu. Ar gyfer elfen 'ysbrydoli' yr adran, teimlaf fy mod ar lefel pedwar gan fy mod medru dilyn a defnyddio esiamplau eraill yn fy addysgu fy hun. Mae modd gweld unwaith eto yn atodiad ii fy mod yn gallu 'defnyddio dulliau addysgu a dewiswyd gan yr athro dosbarth' (atodiad ii). Er mwyn cyrraedd lefelau uwch yn yr adran yma, fe fydd gofyn i mi i ysbrydoli eraill o fewn sefyllfaoedd heriol yn ogystal â chadw cymhellant o fewn y grŵp. Wrth edrych ar elfen 'cyfathrebu'n effeithiol' yr adran yma, teimlaf fy mod ar lefel pedwar sef canolradd gan fod gen i'r gallu i gyfathrebu ac addysgu fy syniadau a gwersi yn y byd addysg mewn ffordd lwyddiannus lle mae disgyblion yn dysgu sgiliau newydd. Gweler yn atodiad v fy mod wedi cyfathrebu'n effeithiol gan fod y dysgwyr wedi cwblhau'r dasg benodol yn llwyddiannus, er bod rhai heb orffen y dasg gyfan. I ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu ymhellach, gallaf wedi amrywio fy ffod o gyfathrebu er enghraifft gyda mwy o ddefnydd technoleg yn amlach.

Un ffordd mae modd i ddatblygu sgiliau creadigol a mentrus dysgwyr cynradd yw defnyddio cardiau 'Creative Whack Pack' Roger von Oech (1991). Noda von Oech (1983) "discovery consists of looking at the same thing as everyone else and thinking something different." Mae modd atgyfnerthu hun trwy ddefnydd ei 'Creative Whack Pack'. Mae'r pecyn yma yn cynnwys 64 o gardiau gyda llwyth o syniadau creadigol gwahanol arnyn nhw, ac wedi'i rhannu i bedwar 'ôl' wahanol. Y rolau yma yw fforiwr, arlunydd, beirniad a rhyfelwr. Syniad y cardiau yma yw datblygu ac ehangu ar sgiliau creadigol, ac mae modd defnyddio nhw o fewn lleoliad ysgol. Mae'r pedwar rôl yn galluogi plant i feddwl yn greadigol fel y cymeriad penodol i gwblhau beth sydd ar y cardiau. Mae'r cardiau i gyd yn cynnwys senario neu broblem ac yna cwestiwn/cwestiynau yn ymwneud â'r senario neu'r broblem benodol. Gall y cardiau caniatáu i blant i feddwl yn greadigol wrth ateb y cwestiynau. Bydd y cardiau yma yn

fwy addas ar gyfer datblygu sgiliau creadigol a menter dysgwyr ym mlynnyddoedd 5 a 6, ond mae modd addasu'r cardiau er mwyn siwtio bob oedran o ddysgwyr cynradd.

Mae modd helpu datblygu sgiliau creadigol a menter dysgwyr cynradd trwy eu hannog i ddefnyddio arferion y meddwl (Costa a Kallick). Yr arferion yma yw'r ffurf mae pobl creadigol a galluog yn delio â phroblem. Mae un deg chwe arfer wahanol: Dyfalbarhau; rheoli byrbwylltra; gwrandio gyda dealltwriaeth ac empathi; meddwl yn hyblyg; meddwl am eich ffordd o feddwl; ceisio cyraedd cywirdeb; cwestiynau a gosod; defnyddio gwybodaeth o'r gorffennol mewn sefyllfaoedd newydd; meddwl a chyfathrebu yn eglur ac yn fanwl; casglu data trwy'r holl synhwyrâu; creu, dychmygu a mentro; ymateb gan ryfeddu a synnu; cymryd risgiau mewn dull cyfrifol; gweld hiwmor; meddwl yn gyd-ddibynnol; yn agored i ddysgu'n barhaus. Trwy annog dysgwyr i ddefnyddio rhai o arferion y meddwl, bydd siawns uwch y bydden nhw'n meddwl yn creadigol.

Techneg arall i ddatblygu sgiliau creadigol a menter dysgwyr cynradd yw'r effaith Leonardo. Mae'r effaith Leonardo yn galluogi i ddysgwyr datblygu eu syniadau mewn creadigol a hyderus, yn ogystal â chaniatáu athrawon i fod yn fwy hyblyg yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n galluogi disgyblion i gymryd rhan yn y cynllunio ac yn sicrhau bod 'llais y plentyn' yn ganolog i'r addysgu. Mae'r effaith Leonardo yn "method that teachers can use to engage the diverse range of aptitudes that are found in children, blending these into creative, productive, and enjoyable learning experiences" (Hickey a Robson, 2013, t. 2).

Mae yna bedwar prif gam fel rhan o'r effaith Leonardo o fewn ysgolion. Y cam cyntaf yw canolbwyntio ar brofiadau'r dysgwyr. Trwy ddefnyddio profiadau personol, mae cyd-destun yn cael ei rhoi i'r addysgu ac mae'n fwy perthnasol i'r plant. Mae seilio'r addysgu ar chwilfrydedd y disgyblion yn mynd i ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Yr ail gam yw datblygiad. Mae modd i ddysgwyr ymchwilio, datblygu eu syniadau, ac arbrofi heb ffiniau arferol sy'n caniatáu nhw i wneud cysylltiadau gyda'r proses dysgu i hwyluso datblygiad. Y trydydd cam o addysgu gan ddefnyddio'r effaith Leonardo yw greadigaeth. Gall disgyblion defnyddio eu sgiliau a gwybodaeth mewn ffordd creadigol i ehangu eu dysgu a chwblhau'r dasg. Y cam olaf yw adlewyrchu ar y gwaith maen nhw wedi cyflawni a'u gwerthuso, yn ogystal â chyfathrebu'r wybodaeth a sgiliau maen nhw wedi dysgu a datblygu mewn ffurf wahanol a'u defnyddio yn y dyfodol o fewn a thu allan i'r ysgol (Ysgol Bryn Gwalia, 2013).

Enghraifft o ysgol sy'n defnyddio'r dull effaith Leonardo o fewn eu cwricwlwm yw Ysgol Gynradd Ynystawe. Cychwynnodd Ysgol Gynradd Ynystawe defnyddio'r effaith Leonardo

yn 2006 fel rhan o brosiect Coleg St Mary's yn Iwerddon, ac mae wedi bod yn hynod o llwyddiannus ers hynny (Ynys Tawe Primary School, 2008). Mae'r ysgol yn cyflawni'r effaith Leonardo dros flwyddyn academiaidd gyfan. Nodir gan Estyn (2015) bod yr effaith Leonardo o fewn Ysgol Gynradd Ynystawe wedi sicrhau fod "ymagweddau cyson y mae disgyblion a rhieni yn eu deall" yn ogystal ag "ymagweddau creadigol ar gyfer datblygu medrau meddwl, datrys problemau a llefaredd lefel uwch." Mae'n glir o adroddiad yr ysgol gan Estyn fod yr effaith Leonardo yn llwyddiant.

Gall fod yn anodd i athrawon i fesur lefel creadigrwydd eu disgyblion gan ei fod yn anodd gwybod beth sy'n cael ei ystyried fel syniad creadigol. Noda Torrance (1974) y ffordd gall creadigrwydd cael ei asesu: llithrigrwydd; hyblygrwydd; ymhelaethiad; gwreiddioldeb. Mae modd defnyddio'r elfennau yma i asesu creadigrwydd dysgwyr cynradd.

Dull arall gall cael eu defnyddio i addysgu disgyblion sut i feddwl yn greadigol a datblygu ac ehangu ar eu sgiliau menter yw 'SCAMPER' (Eberle, 1971). Mae 'SCAMPER' yn acronym ar gyfer saith techneg wahanol i helpu pobl i feddwl yn greadigol. Y saith techneg yw: eilyddio; cyfuno; addasu; ad-drefnu; newid pwrpas; dadwneud; gwyrddroi. Mae'r technegau yma wedi'i seilio ar restr wirio gan Osborn a wnaeth ddyfeisio'r dechneg meddwl 'brainstorming.' (Mulder, 2018). Er gall y dull 'SCAMPER' cael ei ddefnyddio yn y byd addysg ar gyfer meddwl yn greadigol, mae darganfyddiad fod y dechneg yn aflwyddiannus wrth ymgeisio cefnogi dysgwyr i ysgrifennu'n greadigol. Roedd yr astudiaeth yn ymchwilio i ddarganfod pa effaith oedd y defnydd o 'SCAMPER' yn cael ar ysgrifennu creadigol plant ym mlwyddyn 6, oed deg neu un ar ddeg ond darganfyddodd yr astudiaeth fod 'the use of the SCAMPER as a creative tool did not seem to have any drastic impact on the participants' (Majid, Tan a Soh, 2003). Ar y llaw arall, awgryma Majid, Tan a Soh (2003) gall y dechneg 'SCAMPER' fod yn llwyddiannus os caiff ei ddefnyddio yn fwy aml o fewn ysgolion a bod athrawon ac academyddion yn ymgyswngwyo â'r dull.

Noda Glenn (1996) fod 'SCAMPER' yn dechneg gall helpu dysgwyr i ddatblygu ac ehangu ar bob elfen o greadigrwydd, "creativity involves divergence, imagination, originality, and intuition, all of which can be promoted using the SCAMPER method of problem solving." Awgryma fod angen i athrawon i annog creadigrwydd tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, ac wrth wneud hyn fe fydd athrawon yn "create higher student participation, increase motivation, and build more positive self-concepts" Glenn (1996).

Ar y cyfan, mae nifer o ddulliau a thechnegau er mwyn gwella a datblygu sgiliau creadigrwydd a menter fy hunain, yn ogystal â sgiliau dysgwyr cynradd. Wrth ddefnyddio'r Fframwaith EntreComp mae modd targedu pa gynnydd sydd angen ei wneud a sut i wneud y cynnydd hwn. Mae sicrhau lefel uchel o greadigrwydd ac addysg menter o fewn y byd addysg yn hynod o bwysig. Un o bedwar dibenion Donaldson (2015) yw sicrhau bod pob unigolyn yn 'gyfranwyr mentrus, creadigol' ac mae'r angen i ymgeisio i ehangu ar greadigrwydd dysgwyr trwy gydol eu hamser yn yr ysgol yn hanfodol.

Atodiad i

Adolygiad ar Ddiwedd Wythnos

Enw'r Hyfforddai: Alice Liney

Enw'r Mentor: Sophie Dark

Wythnos: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 (rhowch glych am y rhif addas)

Eich targed hyfforddi personol cyfredol:

S1: Gwerthoedd Proffesiynol - Cyswllt â rhieni

Pa gynnydd a wnaethoch yn eich targed hyfforddi personol yn ystod yr wythnos a aeth heibio?

- Nodi yn llyfr cofnodion Rowen.
- Wedi trafod gyda rhieni C.H. am ei berthynas gyda bechgyn orall y dosbarth yn ystod amser chwarae.

Sut y gwyddoch chi hyn? (Rhowch grynoded o'ch cyraeddiadau)

- Llyfr cofnodion Rowen yn mynd nôl at ei fam pob dydd.
- Rhieni C.H. yn hapus am y datblygiad i'r broblem.

Gwerthusiad yn erbyn safonau SAC

(dylai'r hyfforddai a'r mentor dau gytuno ar y gwerthusiad):

E - Ardderchog, G - Da, A - Digonol, U - Anfodhaol (Mae angen gwelliant sylweddol) Ticiwch y blwch addas				
	E	G	A	U
S1	✓	✓		
S2		✓		
S3.1		✓		
S3.2			✓	
S3.3		✓		

Llofnod yr hyfforddai: A. Liney
Llofnod y mentor/uwch fentor: S. Dark
Dyddiad: 26.1.2018

Beth yw'r meysydd nesaf y byddwch yn eu datblygu? Gosodwch dargedau hyfforddi personol ar gyfer yr wythnos nesaf.

Defnydd ehangach o strategïau asesu ar gyfer dysgu.

At ba safon SAC y mae eich targedau yn cyfeirio?

S3.2 - Asesu a Monitro

Sut yn union y byddwch yn cyrraedd eich targed? Cwblhewch gynllun gweithredu (Ffurflen C20) er mwyn amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd a'u datblygu.

Defnydd o offer dechnolegol i AagD e.e. cardiau 'pickers'.

Atodiad ii

S3.3: Addysgu: Addysgu a Rheolaeth Dosbarth

Adequate

- **Sylwadau a thystiolaeth**
- **Targedau ar gyfer Gwelliant ac awgrymiadau er mwyn symud ymlaen**

Mae Alice yn darparu amgylchedd dysgu da - angen datbygu yn fwy trwy sicrhau tasgiau o fewn yr ardlaoedd yn fwy pwrpasol a bod y disgyblion yn gwybod beth i wneud o fewn pob ardal - y defnydd o'r cerdiau her a Tedi y dosbarth. Mae ganddi rheolaeth dosbarth / strategaethau rheoli ymddygiad da wrth ddefnyddio offer, deunyddiau, testunau ac adnoddau briodol i gadw sywl y disgyblion. Mae Alice yn dechrau arwain a chefnogi oedolion ychwanegol yn effeithiol, ond angen mwy o gyfarthebu gyda'r cynorthwyr yn ddyddiol er mwyn sicrhau ei bod yn deall yr hyn syd angen gwenud / asesu o fewn y weithgaredd y mae wedi cynllunio iddynt. Mae Alice wedi dechrau defnyddio'r dulliau dysgu a ddewiswyd gan yr athro dosbarth i sbarduno, ysgogi ac addysgu disgyblion ac mae ganddi tystiolaeth o allu i herio disgyblion trwy gwestiynau a gweithgareddau effeithiol dros ben a wahaniaethir.

Atodiad iii

S1 - Gwerthoedd ac arfer proffesiynol

Yn ystod y cyfnod yma, mae Alice wedi dangos lefel dda o annibyniaeth ym mhob agwedd ar addysgu a monitro. Mae hi wedi dechrau gwerthuso eu cynlluniau yn fwy pwrpasol trwy osod ffordd ymlaen i addysg y plant pob tro. Erbyn hyn, mae Alice wedi dechrau ymwneud yn gadarn a dysgu'r disgyblion wrth arddangos yn glir trwy fodelu patrymau iaith addas. Mae ganddi'r gallu da i adfyfrio'n onest ar ei harfer ei hun. Mae ei hyder wedi codi wrth feddwl am ei haddysgu ei hun gan ei bod wedi dechrau dangos ymwybyddiaeth o sut gallai hi wella. Mae Alice yn barod i dderbyn cyngor gan eu mentoriaid ac yn gydwybodol wrth weithio ar ei targedau personol. Mae'n rhaid i mi ganmol y ffordd wnaeth Alice gweithio gyda'r chynorthwyr y dosbarth, yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn esbonio ei disgwyliadau yn effeithiol.

Atodiad iv

Sylwadau a thystiolaeth: Nododd yr athrawon (dysgu tîm) bod Alice yn cydgynllunio'n effeithiol fel rhan o'r tîm. Cynhelir y cyfarfodydd yma fel arfer ar nos Fawrth. Canmolir hyn. Nododd y mentor dosbarth ei bod yn derbyn cyfarwyddid ac arweiniad yn dda a'i bod yn ymateb yn effeithiol i gyngor. Nododd y mentor dosbarth fod Alice yn ymateb yn brydlon i gyngor ac yn gweithredu'n bositif ar bob arweiniad. Defnyddia Alice amser galw'r gofrestr i esbonio i'r staff atodol eu dyletswyddau. Roedd y cynorthwyr yn gwbl glir o'u dyletswyddau heddiw. Bydd Alice yn cyfarch y rhieni ar ddiwedd y dydd a ben bore. Mae trefn dosbarthu gwaith cartref yn bodoli yn y dosbarth. Anogir Alice i fanteisio ar hyn er mwyn magu profiad o 'gyfathrebu gwybodaeth' i rieni. Gwnaiff Alice ddyletswydd iard amser chwarae gan fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan ym mywyd cyffredinol yr ysgol. Mae Clwb Lego pob nos Iau, felly mae'n fwriad ganddi i fynychu a chynorthwyo. Mae anghenion gan unigolyn ac yn derbyn cefnogaeth cynorthwydd gwahanol yn y bore a'r prynhawn. Treulia Alice amser yn trafod gyda'r ddwy er mwyn ymateb i anghenion yr unigolyn. TARGED(AU) AR GYFER GWELLIANT: ☐ Dod i'r arfer â chynraedd yr ysgol yn brydlon yn y boreau (gan ystyried rhwystrau e.e. traffig trwm) ☐ Cyfathrebu gwybodaeth a disgwyliadau i rieni ☐ Ymwneud â gweithgareddau allgyrsiol

Atodiad v

Model Beirniadau Wedi Adfyfyrio (BWA)

Dyddiad: 29/1/18

Digwyddiad critigol (Ffocws): English Grammar - Answering questions in full sentences

Profiad	
Teimladau Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?	Teimlat yn hapus gyda sut aeth y wers heddiw. Llygoddol y disgyblion i ateb cwestiynau gyda brawddegau llawn ac ymestyn i atebion.
Cofio a Deall Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? Can you list the aspects of the learning experience that went well?	• Grŵpiau gallu uchel wedi llyngddo i ymchwilio i atebion yn seiliedig ar Affrica. • Pamb wedi llyngddo i ateb cwestiynau gan ddefnyddio brawddegau llawn - ar lafar ac yn ysgrifenedig.
Gwerthuso a dadansoddi Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?	• Lefel dda o wahaniaethu - sicrhau bod y gwahaniaethu yn dda pob tro. • Rhai disgyblion heb orffen y dasg.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?	• Sicrhau ffd yr amse i gysylltu'r dasg yn glir i'r disgyblion. • Defnyddio amseredd ar y burdd gyda ffd bod y disgyblion yn ymgybedol o'r amse.

Rhestr Gyfeirnodau

Atavar, M. (2013) *Everyone is Creative*. Llundain: Kiosk Publishing.

Bacigalupo, M. (2016) *EntreComp: The Entrepreneurship Competence Framework*. Ar gael yn:

<http://publications.jrc.ec.europa.eu/repository/bitstream/JRC101581/lfna27939enn.pdf>. (Darllenwyd: 18 Ionawr 2019).

Cropley, A. (2001) *Creativity in Education & Learning: A Guide for Teachers and Educators*. Llundain: RoutledgeFalmer

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>. (Darllenwyd: 17 Ionawr 2019).

Enabling Enterprise (2014) *Enabling Enterprise*. Ar gael yn: <http://enablingenterprise.org/>. (Darllenwyd: 20 Ionawr 2019).

Estyn (2015) *Dull blaengar o gefnogi disgyblion mwy galluog a dawnus*. Ar gael yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/dull-blaengar-o-gefnogi-disgyblion-mwy-galluog-dawnus?_ga=2.132910023.830366698.1547765417-1342587087.1526038448. (Darllenwyd: 21 Ionawr).

Glenn, R. (1997) SCAMPER for student creativity. *The Education Digest*, 62(6).

Hickey, I. a Robson, D. (2013) *The Leonardo Effect: Motivating Children To Achieve Through Interdisciplinary Learning*. Llundain: Routledge.

Hytti, U. ac O’Gorman, C. (2004) "What is “enterprise education”? An analysis of the objectives and methods of enterprise education programmes in four European countries", *Education + Training*, 46(1), tud.11-23.

Majid, D., Tan, A. and Soh, K. (2003). ‘Enhancing Children’s Creativity: An Exploratory Study on Using the Internet and SCAMPER as Creative Writing Tools.’ *THE KOREAN JOURNAL OF THINKING & PROBLEM SOLVING*, [ar-lein] 13(2), t.67-81. Ar gael yn: <http://citeseerx.ist.psu.edu/viewdoc/download?doi=10.1.1.464.7255&rep=rep1&type=pdf>((Darllenwyd 24 Ionawr 2019).

Mulder, P. (2018). ‘SCAMPER Technique by Bob Eberle.’ Ar gael yn:

<https://www.toolshero.com/creativity/scamper-technique-bob-eberle/> (Darllenwyd: 21 Ionawr 2019).

Ramm, J. Tjøtta, S. Torsvik, G. (2013) *Incentives and creativity in groups*. Ar gael yn:

<https://www.uis.no/getfile.php/13115229/Forskning/Bilder/09%20%C3%98konomi/Torsvik%20candle-incentiv.pdf>. (Darllenwyd: 23 Ionawr 2019).

Robinson, K. (2007) *Do schools kill creativity?* Ted Talks [fideo]. Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=iG9CE55wbtY>. (Darllenwyd: 16 Ionawr 2019).

Robinson, K. ac Aronica, L. (2015) *Creative Schools: The Grassroots Revolution That's Transforming Education*. Llundain: Penguin.

Von Oech, R. (1943) *A Whack on the Side of the Head: How you can be more creative*. 3ydd arg.

Ynystawe Primary School (2008) *The Leonardo Effect*. Ar gael yn: https://swansea-edunet.gov.uk/en/schools/ynystawe/Pages/The_Leonardo_Effect.aspx. (Darllenwyd: 19 Ionawr 2019).

Ysgol Bryn Gwalia (2013) *The Leonardo Effect*. Ar gael yn: <http://www.bryngwalia.org/Our-Learning/The-Leonardo-effect.html>. (Darllenwyd: 19 Ionawr 2019).